OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 887

# Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

**Troseddau o dan y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu**

**9.**—(1) Mae'r troseddau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodlen 5 wedi eu rhagnodi'n droseddau at ddibenion adran 52(1) o'r Ddeddf.

(2) Mae ail golofn y tabl yn Atodlen 5 yn cynnwys disgrifiad o'r drosedd ragnodedig.

(3) Mae swm y gosb sydd i'w dalu ar gyfer pob trosedd wedi ei bennu yn nhrydedd golofn y tabl yn Atodlen 5.